GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION SEITHFED CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 3YDD MAI 2007

LLEOLIAD: GWESTY'R METROPOLE, LLANDRINDOD

Yn bresennol:

Mal Davies (Cadeirydd)	Goronwy Jones
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Nichola Jones
Frank Bonello	Valerie Merriman
Ron Carrotte	Suzanne Nantcurvis
Tim Cox	Rosemond Nelson
Elwyn Davies	Richard Parry Jones.
Sheila Drayton	Gareth Roberts
Michael Edwards	Jane Setchfield
Ian Guy	Sarah Stockford
Angela Jardine	Jacky Tonge
Sue Jenkins	Gwen Williams
Gareth Jones	Peter Williams

Ymddiheuriadau:
Anthony Hughes

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Helen Lowcock James	Swyddog Cyhoeddiadau (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i seithfed cyfarfod ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Estynnwyd croeso i'r arsylwyr, Glenise Borthwick (Pennaeth Cyfathrebu, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a Mark Phipps (Swyddog Cofrestru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru). Croesawyd y sawl a arsylwai o'r oriel gyhoeddus hefyd.

1.2 Aeth y Cadeirydd ymlaen i groesawu'n ffurfiol Sarah Stockford, aelod newydd o'r Cyngor yng nghategori athrawon cynradd etholedig.

1.3 Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at eitem deg ar yr agenda, ac yn benodol at y diwygiadau i Reolau Sefydlog y Cyngor, a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol ar 7fed Chwefror. Gwahoddwyd yr aelodau i fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig. Roedd yr aelodau'n fodlon a daeth y Rheolau Sefydlog newydd i rym yn syth.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

Ffi gofrestru:

3.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y llythyr dyddiedig 22ain Ebrill 2007 gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mewn perthynas â ffi gofrestru'r Cyngor ar gyfer 2007-08 a oedd wedi'i gyflwyno cyn y cyfarfod. Mynegodd ei siom ac ail-nododd yr egwyddor sylfaenol o gadw annibyniaeth ariannol y Cyngor. Gan gyfeirio at yr arbedion maint sydd o fantais i Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr, tynnodd y Cadeirydd gymhariaeth â chynghorau o faint tebyg i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'u priod ffioedd. Byddai oedi o ran ymateb oherwydd cyfnod yr etholiad a thra'n ceisio cael arweiniad gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.

3.2 Nododd un aelod fod y Cyngor wedi derbyn y cyfrifoldeb ychwanegol am addasrwydd a'r gwaith achosion safonau proffesiynol yn sgil hynny. Fodd bynnag, nid oedd yr ohebiaeth hon yn adlewyrchu'r un ymrwymiad i'r proffesiwn addysgu.

3.3 Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch y camau y byddai swyddogion y Cyngor yn eu cymryd i symud y mater yn ei flaen. Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai ymateb yn cael ei anfon, yn dilyn yr etholiad, at y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghyd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2007-10 yn nodi'r dyletswyddau statudol a'r gweithgareddau eraill y mae'n bosibl y byddai'n rhaid eu hepgor heb y cynnydd gofynnol yn y ffi.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 7fed Chwefror 2007

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 11.12: Ffi gofrestru – trefniant dwy ffordd gyda ChyngACLl: Cynghorwyd yr aelodau bod y penderfyniad i derfynu'r trefniant dwy ffordd wedi'i ohirio, a bod trafodaethau pellach i'w cynnal gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr, yn dilyn trafodaethau gyda'i Reolwyr Cofrestru.

4.3 Cofnod 16.4: Strategaeth Llwyth Gwaith CyngACC: Hysbyswyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod cyfarfod wedi'i gynnal ar 21ain Mawrth 2007 gyda'r Panel Cynghori ar Lwyth Gwaith Ysgolion (SWAP) a oedd wedi cynorthwyo wrth lunio dulliau cydweithredu i amlygu materion llwyth gwaith.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas ag Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (21 i 26)

5.1 Ni roddwyd unrhyw hysbysiadau.

6. Cofnodion drafft y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 4ydd Rhagfyr 2006

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr, a thynnodd sylw'r aelodau at ddau brif bwynt nad oeddent wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod.

6.2 Cofnod 2.2: Darlith Flynyddol 2007: Cynghorwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod pob un o'r rheiny yr estynnwyd gwahoddiad iddynt wedi datgan nad oeddent ar gael ar y dyddiad dan sylw. Fodd bynnag, roedd gwahoddiad wedi'i gyhoeddi i Estelle Morris. Roedd Shirley Williams a Glenys Kinnock wedi mynegi diddordeb mewn traethu darlith 2008 a byddai camau dilynol yn cael eu cymryd yn hyn o beth.

6.3 Cofnod 5: Cynllun Iaith Gymraeg CyngACC: Hysbyswyd yr aelodau bod llythyr ffafriol wedi'i dderbyn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ôl cyflwyno adroddiad cyntaf y Cyngor ar ei gynllun statudol. Roedd y llythyr wedi cyfeirio at y ffaith y gallai'r Cyngor gael ei wahodd i rannu arfer gorau gyda sefydliadau sy'n cyflwyno cynllun.

6.4 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

6.5 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7. Cofnodion drafft y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 19eg Mawrth 2007.

7.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn yn fras, gan hysbysu'r aelodau y byddai pob mater yn cael ei drafod ar agenda'r cyfarfod.

7.2 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

8. Cofnodion drafft y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 23ain Mawrth 2007

8.1 Cyflwynodd Frank Bonello y cofnodion hyn.

8.2 Cofnod 6: Safonau Proffesiynol: cyhoeddi manylion a chanlyniadau gwrandawiadau: Nododd Frank Bonello fod aelodau'r Pwyllgor Cofrestru yn dymuno cael trafodaeth bellach cyn cyflwyno argymhellion i'r Cyngor.

8.3 Cofnod 3.7: Achosion Addasrwydd: Oedi amser rhwng cyflawni trosedd ac Ymchwiliad CyngACC: Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch y trydydd pwynt bwled a nododd *'y dylid cynnwys oedran y person fel ystyriaeth berthnasol'* a nodwyd y dylid gofalu nad oedd canllawiau'r Cyngor yn groes i ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail oedran. Rhoddwyd sicrwydd y byddid yn gofyn am arweiniad.

8.4 Roedd un aelod yn cytuno gyda chofnod 6.3 a oedd yn nodi ei barn gref na ddylid cyhoeddi unrhyw fanylion yn ymwneud ag achosion safonau proffesiynol. Teimlid y gellid darparu manylion yn hytrach ar gais i'r Cyngor. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod ymagwedd gyson tuag at gyhoeddi gwybodaeth am wrandawiadau a oedd ar fin cael eu cynnal a'u canlyniadau wedi'i chytuno'n flaenorol gan y Cyngor ond y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn ddiweddarach yn y cyfarfod o dan eitem un ar bymtheg ar yr agenda.

8.5 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 13eg Rhagfyr 2006

9.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Ron Carrotte a gadeiriodd y cyfarfod, gan dynnu sylw'r aelodau at yr adroddiad cadarnhaol a dderbyniwyd gan archwilwyr mewnol y Cyngor.

9.2 Cofnod 4.1: Cyfarwyddyd Cyfrifo Diwygiedig: Adroddodd Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* y byddai'r Cyfarwyddyd Cyfrifo Diwygiedig yn rhoi darlun cliriach o'r gwariant blynyddol ar gyfer DPP. Byddai hyn o gymorth wrth baratoi'r Cyfrifon Blynyddol yn y dyfodol.

9.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9.4 Nid oedd unrhyw faterion yn codi

10. Rheolau Sefydlog (CYNGACC 19/07)

10.1 Roedd yr aelodau wedi mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig ar ddechrau'r cyfarfod.

11. Ethol aelodau sy'n athrawon i'r Cyngor 2008 (CYNGACC 20/07)

11.1 Atgoffwyd yr aelodau gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) bod yr amserlen amlinellol ar gyfer Cynllun Etholiadau'r Cyngor wedi'i chymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor ar 7fed Chwefror 2007. Darparwyd ail ddrafft o'r cynllun yn Atodiad A a oedd yn ymgorffori newidiadau a wnaed gan y Pwyllgor Gweithredol a oedd wedi trafod y broses arfaethedig ym mis Mawrth 2007 ynghyd â thestun ychwanegol gan gontractwr y Cyngor, ERS, mewn perthynas â'r broses ar gyfer ethol penaethiaid uwchradd.

11.2 Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999 yn darparu i'r Cyngor ethol deuddeg aelod yn unol â Chynllun Etholiadau a ddatblygir gan y Cyngor.

11.3 Holodd un aelod ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer *'o leiaf un pennaeth, dirprwy neu bennaeth cynorthwyol uwchradd a gyflogir mewn ysgol uwchradd'* heb y cymal cyfatebol ar gyfer y sector cynradd. Er y nodwyd y sylw hwn, cynghorodd y Cadeirydd y byddai newid o'r fath yn mynnu diwygio'r ddeddfwriaeth, a bod hynny'n amhosibl. Roedd y newid wedi'i gyflwyno yn unol â chais gan y Cyngor i sicrhau nad oedd nifer y penaethiaid yn y sector cynradd yn atal o leiaf un person rhag cael ei ethol o'r sector uwchradd.

11.4 Yn dilyn cwestiwn, cadarnhaodd Hayden Llewellyn y byddai'r contractwr yn cyhoeddi pecynnau enwebu i'r rheiny a ddymunai sefyll yn ymgeiswyr erbyn 31ain Hydref 2007 ar yr hwyraf. Byddai pecynnau enwebu ar gael ar gais ychydig cyn y dyddiad hwn.

11.5 Roedd yr aelodau'n fodlon cytuno ar y Cynllun Etholiadau drafft heb newidiadau pellach.

11.6 Yna cafwyd trafodaeth ynghylch safleoedd enwebedig ar y Cyngor a'r amserlen enwebu. Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod tymor pob aelod enwebedig a oedd yn gwasanaethu ar hyn o bryd wedi'i ymestyn am flwyddyn ac aeth ymlaen i adrodd bod estyniad pellach o ddeufis ar ôl i amserlen Llywodraeth Cynulliad Cymru lithro. Byddai'r tymor ar gyfer aelodau enwebedig presennol yn dod i ben ar 31ain Hydref 2008.

11.7 Byddai gwahoddiad i gyrff enwebu gyflwyno ymgeiswyr yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y cyfamser, roedd cyrff wedi'u hysbysu o'r amserlen ddiwygiedig.

11.8 Nodwyd y byddai aelodau enwebedig yn eu swydd ddeng mis cyn yr aelodau etholedig ac y gallai hyn ddileu'r cyfle i unioni unrhyw anghydbwysedd yn ffurf y Cyngor. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid addasu'r gweithdrefnau i ymdrin â'r mater hwn. Ar y pwynt hwn, atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i symud i sefyllfa lle byddai aelodau enwebedig yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd o 2010 ac y byddai aelodau etholedig ac enwebedig yn dechrau'u tymhorau gwasanaeth bob dwy flynedd ar wahân.

12. Adroddiad cynnydd ar Gofrestru, SAC a Sefydlu (CYNGACC 21/07)

12.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am waith Cofrestru, SAC a Sefydlu'r Cyngor.

Cofrestru:

12.2 Gan adrodd ar gynnydd o ran casglu ffi gofrestru 2007-08, roedd y nifer wedi cynyddu ers cyhoeddi'r adroddiad ac roedd bellach yn sefyll ar 35,953.

SAC:

12.3 Aeth Hayden Llewellyn ymlaen i gynghori bod swyddogion y Cyngor wedi dechrau'r dasg flynyddol o drefnu i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) gael eu cofrestru. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd hyn yn cynnwys rhaglen o ymweliadau â sefydliadau AHCA i esbonio trefniadau cofrestru ac ANG y Cyngor i fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf. Roedd cymorth yn cael ei gynnig hefyd i gwblhau ffurflenni cais Datgeliadau Manwl, ac roedd 300 wedi'u cwblhau hyd yma a oedd yn barod i'w cyflwyno i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Sefydlu:

12.4 Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd at y 3330 o athrawon a oedd wedi bodloni'r safon Sefydlu ofynnol.

12.5 Croesawodd yr aelodau yr adroddiad. Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch '*Dyfarnu SAC i bersonau eraill'* a nodwyd ym mharagraff 18 o'r papur esboniadol ac eto yn y rhes olaf yn Atodiad A. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd yr opsiwn hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml a nodwyd bod angen meini prawf penodol iawn. Cytunwyd y byddai manylion y meini prawf ar y cymwysterau gofynnol yn cael eu darparu i aelodau'r Pwyllgor Cofrestru ar 12fed Mehefin 2007.

12.6 Mynegodd yr aelodau eu bodlonrwydd ar waith da'r swyddogion.

13. Fframwaith Datblygiad Proffesiynol (CYNGACC 22/07)

13.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a roddodd adroddiad cynnydd ar 4 agwedd ar y Fframwaith, sef: gohebiaeth gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar beilota'r rhaglen Athro Siartredig; lansio'r ymgynghoriad ar gofnodi/hunanadfyfyrio a sicrhau ansawdd darpariaeth DPP; y safonau diwygiedig ar gyfer y rhaglen Athro Siartredig a manylion y darparwyr a oedd wedi'u penodi ar gyfer y rhaglen beilot.

Gohebiaeth y Gweinidog:

13.2 Yn unol ag un o swyddogaethau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru fel y nodwyd yn Neddf 1998 ('cyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol athrawon ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru), roedd gohebiaeth flaenorol gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi gofyn am eglurhad manwl am haen 2 y fframwaith ac roedd hyn wedi'i ddarparu i aelodau'r Cyngor yn y cyfarfod ar 7fed Chwefror 2007.

13.3 Roedd y Cadeirydd wedi anfon llythyr ymateb manwl, dyddiedig 22ain Mawrth 2007, ac roedd hyn wedi'i ategu gan gyfarfodydd rhwng swyddogion y Cyngor a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yr ymateb dilynol gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a gyflwynwyd er sylw'r aelodau yn gadarnhaol ac yn derbyn sicrwydd y Cyngor bod y fframwaith yn bodoli ar wahân i faterion cyflogau athrawon.

13.4 Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i dynnu sylw'r aelodau at lythyr y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, dyddiedig 27ain Mawrth 2007, a oedd yn cefnogi cais y Cyngor am Siartr Frenhinol i ategu'r cais i'w gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor.

Ymgynghoriad haenau 3 a 4:

13.5 Roedd y Cyngor wedi dechrau gwaith ar Haenau 3 & 4 y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol drwy ailgynnull y Tasglu ym mis Medi 2006 i lunio set gydlynus o gynigion ar gyfer cofnodi/hunanadfyfyrio am DPP athrawon a sicrhau ansawdd darparwyr DPP yng Nghymru. Roedd aelodau'r grŵp yn darparu cynrychiolaeth eang o sefydliadau AU, AALlau, undebau, Estyn, swyddogion y Cynulliad ac aelodau'r Cyngor. Roedd y cyfarfodydd dilynol wedi arwain at ddatblygu'r ddogfen a oedd yn barod ar gyfer yr ymgynghoriad.

13.6 Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod yr ymgynghoriad wedi'i lansio ar 16eg Ebrill 2007 a nodwyd bod crynodeb o gynigion y Cyngor wedi'i anfon at bob athro cofrestredig. Gwahoddwyd ymatebion hyd at 15fed Mehefin 2007. Byddai pedair seminar ymgynghori'n cael eu cynnal ledled Cymru, gyda phob un wedi'i hanelu at grŵp penodol o athrawon ac yn darparu adborth ansoddol gwerthfawr ar gynigion y Cyngor.

Safonau Athro Siartredig:

13.7 Yn unol â gwahoddiad y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i'r Cyngor ddatblygu rhaglen Athro Siartredig, roedd y safonau ar gyfer statws Athro Siartredig yn barod erbyn hyn i'r aelodau eu cymeradwyo'n derfynol er mwyn dechrau'r cynlluniau peilot ym mis Medi 2007.

13.8 Gan gyfeirio at Atodiad C, amlygodd y Prif Weithredwr y safonau drafft diwygiedig ar gyfer statws Athro Siartredig a gyflwynwyd, os yn briodol, i'r aelodau eu cymeradwyo. Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r safonau yn yr ymgynghoriad diweddar gyda'r proffesiwn, ac ymatebodd 86% drwy ddweud eu bod yn 'addas at eu diben'. Gwahoddwyd yr aelodau i gynnig sylwadau a hefyd penderfynu a fyddai'n werth sefydlu tudalen 'cwestiynau a ofynnir yn aml'.

13.9 Trafododd yr aelodau y geiriad yn adran un: *'Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol'* er mwyn canfod a oedd y cynnwys yn ddigon clir. Cytunwyd y gallai newid y geiriad ddiraddio'r ymarfer ymgynghori a nodwyd ei bod yn bwysig sylweddoli bod yr adran hon yn ymwneud â 'meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth' am sgiliau a oedd wedyn yn cael ei ddangos gan y safonau yn adran 2.

13.10 Cymeradwyodd yr aelodau y safonau drafft, gan gytuno eu bod yn addas at eu diben ar gyfer y rhaglen beilot ac y gellid cyflwyno newidiadau'n ddiweddarach os tybiwyd bod angen.

13.11 Cymeradwyodd yr aelodau ddatblygu tudalen cwestiynau a ofynnir yn aml ac atebion. Byddai swyddogion y Cyngor yn ymgymryd â'r gwaith hwn.

Peilota'r rhaglen Athro Siartredig:

13.13 Roedd y Cyngor wedi gwahodd tendrau gan sefydliadau ac unigolion a oedd â diddordeb mewn cyflwyno modiwlau peilot ar gyfer rhaglenni drwy lwybr 'a addysgir' a darparu gwasanaethau aseswyr/ymgynghorwyr yn y llwybr achredu, a hynny ar 15fed Ionawr 2007. Derbyniwyd deuddeg tendr ar gyfer y llwybr rhaglen ac un ar gyfer y llwybr achredu. Darparwyd manylion y sefydliadau llwyddiannus yn Atodiad E y papur.

13.14 Cynghorwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod y Dirprwy Gadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon) wedi gwerthuso'r tendrau ar 14eg Mawrth 2007 a oedd wedi darparu ystod dda o leoliadau a dulliau cyflwyno.

13.15 Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth bellach ynghylch nifer o faterion, sef, bwlch yn y ddarpariaeth mewn perthynas â modiwl 'arweinyddiaeth'; darpariaeth yn y Gymraeg a'r amserlen ar gyfer ymarfer gwerthuso. Nodwyd, er bod y peilot i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2009, y gallai fod o gymorth petai modd cynhyrchu canfyddiadau gwerthuso interim cyn newid aelodau'r Cyngor oherwydd y broses etholiadau yn 2008. Cytunwyd hefyd y dylid llenwi'r bwlch a nodwyd drwy dendro am ddarparwr i beilota'r modiwl craidd ar arweinyddiaeth.

13.16 Aeth un aelod ymlaen i gwestiynu pwy fyddai'n llywio'r rhaglen beilot yn gyffredinol. Cynghorwyd yr aelodau bod swydd Rheolwr Rhaglen Athro Siartredig wedi'i hysbysebu'n ddiweddar a bod adroddiadau rheolaidd i aelodau'r Pwyllgor Polisi wedi rhagweld y cyfrifoldeb hwn. Er bod yr aelod o'r farn y gallai fod yn briodol i Dasglu'r Fframwaith oruchwylio datblygiad cynnar y rhaglen beilot, mynegodd aelod o'r Tasglu'r farn na fydd angen hyn o bosibl. Cyfeiriwyd y mater at y Pwyllgor Gweithredol i'w drafod.

14. Cyllido Sefydlu a DPC – adroddiad cynnydd (CYNGACC 23/07)

14.1 Roedd y Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb dros weinyddu'r cyllid ar gyfer Sefydlu a DPC, yn dilyn gwahoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o 1af Medi 2006. Darparwyd adroddiad i'r aelodau ar gynnydd yn y maes hwn yng ngwaith y Cyngor a gwahoddwyd trafodaeth ar faterion penodol.

Sefydlu:

14.2 Darparodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) amlinelliad bras i'r aelodau, gan amlygu'r gyllideb sylweddol o £5.7 miliwn a oedd wedi'i dyrannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer athrawon yng Nghymru.

14.3 Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ffaith bod swyddogion wedi amlygu pedwar mater a adroddwyd i aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Mawrth 2007, mewn perthynas â gweinyddu taliadau i ysgolion ar gyfer cyllido Sefydlu statudol. Y rhain oedd oedi yn yr ymateb gan rai AALlau wrth ddarparu canlyniadau i'r Cyngor, a oedd yn ei dro'n cael effaith andwyol ar gyflymdra'r Cyngor yn anfon cyllid i ysgolion; roedd rhai ysgolion yn hwyr yn gyson yn cyflwyno cofnodion Asesiadau Sefydlu i'w priod AALlau ac roedd yr AALlau hynny wedyn yn hwyr yn trosglwyddo'r canlyniadau i GyngACC; roedd nifer bach iawn o achosion lle roedd athrawon newydd gymhwyso a oedd wedi cwblhau tymor o Sefydlu heb eu cofrestru; yn olaf, cafwyd rhai anawsterau o ran sefydlu faint o gyllid a dalwyd yn flaenorol i ysgolion pan oedd cyllid yn cael ei weinyddu gan AALlau o dan y drefn gyllido flaenorol. Gallai hyn yn ei dro arwain at oedi wrth gyhoeddi taliadau i ysgolion. Gwahoddwyd yr aelodau i drafod a rhoi cyngor ar y materion hyn.

DPC:

14.4 Aeth Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) ymlaen i roi diweddariad ar y maes cyllido hwn, a oedd wedi symud yn ei flaen ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi. Roedd £60,000 mewn taliadau eisoes wedi'i dalu i ysgolion ar gyfer tymor y gwanwyn 2007. Hysbyswyd yr aelodau hefyd o Archwiliad Mewnol diweddar a oedd wedi canolbwyntio ar y rhan hon o gylch gorchwyl y Cyngor. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol iawn gydag un mân-argymhelliad yn unig yn cael ei wneud.

14.5 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad.

15. Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol – adroddiad cynnydd (CYNGACC 24/07)

15.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, tynnodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sylw'r aelodau at lefel y cyllid a ddyrannwyd ac a hawliwyd gan athrawon yn 2006-07 a'r cynnydd cynnar wrth weinyddu'r rhaglen ar gyfer 2007-08.

15.2 Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu'r swm cychwynnol o £2.5 miliwn i'r Cyngor ar gyfer 2006-07 gyda £200,000 pellach yn cael ei ddarparu ym mis Rhagfyr 2006. Pan ddyrannwyd y swm hwn yn llawn i athrawon yng Nghymru ar gyfer eu datblygiad proffesiynol, dyrannwyd £160,000 yn ychwanegol ym mis Ionawr 2007, gan wneud cyfanswm o £2.86 miliwn.

15.3 Adroddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) fod y Cyngor wedi gorddyrannu'r cyllid yn ddoeth, fel a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, gan ddefnyddio lefelau tynnu'n ôl a thanhawlio a ragwelwyd gan athrawon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Oherwydd lefel annisgwyl o achosion o dynnu'n ôl, byddai cyfran fach o'r cyllid ychwanegol yn cael ei dychwelyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

15.4 Cynghorwyd yr aelodau bod gweithgareddau lledaenu'r Cyngor yn mynd yn eu blaen, gyda digwyddiad dan arweiniad y Cyngor yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ar y diwrnod hwnnw.

15.5 Gan edrych ymlaen, roedd cyfanswm o £500,000 o gyllid eisoes wedi'i ddyrannu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007-08. Byddai gwahoddiad i'r aelodau gyflwyno sylwadau am y cynlluniau ar gyfer y rhaglen dros y tair blynedd nesaf i gynnig cefnogaeth i athrawon yn y cyfnod 2008-11.

15.6 Nododd yr aelodau yr wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad ac aethant ymlaen i ofyn cwestiynau o eglurhad.

15.7 Gofynnodd un aelod am y system gyfrifo newydd a oedd wedi'i seilio ar groniadau. Cynghorodd Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* fod y rhan fwyaf o Gyrff a Noddir gan y Cynulliad wedi symud i'r system hon.

15.8 Cododd yr aelodau y mater o gyrchu cyllid hefyd, a oedd wedi'i ategu'n flaenorol gan y Gronfa Ysgolion Gwell (CYG) ac a oedd bellach yn gwywo, a'r anawsterau a ddaeth i ran athrawon ymgynghorol wrth gyrchu cyllid DPP. Gofynnodd rhai aelodau a fyddai'r Cyngor am wneud safiad ar lefelau gostyngol y cyllid sydd ar gael. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod datganiad clir ar gyllid wedi'i wneud yn y cyngor ar y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol yn 2005, a bod cyflwyniad a roddwyd i Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ail-nodi'r pwynt yn glir. Rhoddwyd sicrwydd hefyd i'r aelodau bod 90% o'r ymgeiswyr i GyngACC am gyllid DPP yn llwyddo i gael yr arian y gofynnwyd amdano. Caeodd y Cadeirydd y drafodaeth drwy ddweud y gellid cyfleu'r neges ynghylch cyllid DPP cydlynus a hygyrch i athrawon yng Nghymru i'r Gweinidog newydd maes o law.

16. Materion Safonau Proffesiynol (CYNGACC 25/07)

16.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn yn fras ac amlygodd y ddau argymhelliad a gynigiwyd gan aelodau'r Pwyllgor Cofrestru i ddiwygio trefniadau gweithdrefnol penodol yng ngwaith safonau proffesiynol y Cyngor.

16.2 Roedd y Cyngor wedi trafod cynigion i gyflwyno'r defnydd o aelodau nad oeddent yn aelodau'r Cyngor ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol yn ei gyfarfod ar 7fed Chwefror 2007, ynghyd ag ymagwedd gyson tuag at gyhoeddi manylion gwrandawiadau a chanlyniadau.

16.3 Mewn perthynas â'r meini prawf arfaethedig a'r broses ar gyfer recriwtio pobl i 'eistedd' ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol, tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at yr argymhellion yn Atodiad A y papur. Yn fras, y rhain oedd i benodi grŵp o bum person a fyddai'n cael eu penodi'n aelodau 'lleyg' ond na fyddent yn aelodau o'r Cyngor ar faterion y tu hwnt i faes gwaith safonau proffesiynol y Cyngor; byddai penodiadau am gyfnod o bedair blynedd a byddai disgwyl i'r rheiny a benodwyd ymrwymo hyd at ddeuddeg diwrnod y flwyddyn ac un neu ddau ddiwrnod o hyfforddiant gloywi blynyddol a fyddai'n orfodol. Byddai dealltwriaeth gadarn o rôl reoleiddio corff proffesiynol, ymrwymiad i hyrwyddo lles y cyhoedd a diddordeb mewn materion addysgol yng Nghymru yn rhai o rinweddau a sgiliau gofynnol ymgeiswyr. Yn ogystal, ar draws ystod yr ymgeiswyr, byddai'r gallu i gyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i'r laith Gymraeg yn ystyriaeth. Byddai'r broses recriwtio a dethol yn cynnwys swyddogion y Cyngor, y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac aelod lleyg o'r Cyngor. Cynigiwyd y dylid gosod hysbyseb yn y wasg ddechrau mis Mehefin, gyda chymeradwyaeth yr aelodau, gyda golwg ar gadarnhau penodiadau ym mis Awst/Medi 2007.

16.4 Cynghorodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) nad oedd diffiniad y Cyngor o aelodau 'lleyg' yn cynnwys athrawon a oedd wedi ymddeol. Gan gynnwys cyn-aelodau'r Cyngor, roedd y grŵp presennol o dri deg chwech aelod yn cynnwys naw aelod lleyg.

16.5 Holodd yr aelodau ynghylch cyfradd y tâl ar gyfer pobl nad oeddent yn athrawon yn unol â'r cyfeiriad ym mharagraff 4f Atodiad A. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y gyfradd yr un faint â'r gyfradd gyflenwi a delir i ysgolion yn dilyn absenoldeb aelod sy'n athro. Gallai cyflogwyr aelodau lleyg neu aelodau lleyg hunangyflogedig hawlio'r gyfradd oedd yr un faint â'r gyfradd gyflenwi.

16.6 Cadarnhawyd hefyd na fyddai aelodau lleyg nad oeddent wedi'u cyflogi neu'n hunangyflogedig, er na fyddent yn cael 'tâl' am eu presenoldeb, allan o boced am eu presenoldeb, ac y byddai treuliau'n cael eu talu. Tynnwyd cymariaethau â'r hysbyseb ddiweddar a godwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

16.7 Awgrymodd un aelod y gellid ychwanegu un pwynt bwled ym mharagraff 6 i gynnwys y gofyniad i'r sawl a benodir fynychu un o wrandawiadau Safonau Proffesiynol y Cyngor cyn dechrau yn y rôl. Hefyd, gellid ystyried cynnal adolygiad o berfformiad blynyddol aelodau Pwyllgorau Safonau Proffesiynol fel a wneir gan gyrff rheoleiddio eraill.

16.8 Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r cyfnod prawf arfaethedig. Awgrymodd un aelod y gellid ymestyn hyn o chwech i ddeuddeg mis i roi digon o amser ar gyfer asesu. Tybiwyd mai Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau Proffesiynol perthnasol oedd yn y sefyllfa orau i roi asesiad o berfformiad y rheiny a benodwyd a allai wedyn fwydo i mewn i'r asesiadau prawf.

16.9 Trafododd yr aelodau hefyd eiriad paragraff 4g a allai gynnwys 'ymdeimlad cryf o gyfiawnder'.

16.10 Cytunodd yr aelodau i'r argymhelliad i gymeradwyo'r meini prawf a'r broses ar gyfer recriwtio aelodau nad ydynt yn aelodau Cyngor i Bwyllgorau Safonau Proffesiynol.

16.11 Yna symudodd y drafodaeth i ail gynnig y Pwyllgor Cofrestru mewn perthynas â mabwysiadu ymagwedd gyffredin at gyhoeddi manylion gwrandawiadau sydd ar fin cael eu cynnal a chanlyniadau gwrandawiadau. Gofynnodd un aelod am lefel y cyfrinachedd y dylai'r Cyngor ei roi i adroddiadau Datgeliadau Manwl. Cynghorodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) fod troseddau a gyflawnwyd eisoes yn hysbys i'r cyhoedd, fodd bynnag, gallai fod angen ymdrin yn wahanol â 'gwybodaeth feddal'. Byddai'n gofyn am gyngor cyfreithiol ar y pwynt hwn. Cymeradwyodd yr aelodau yr ymagwedd gyffredin arfaethedig a argymhellwyd.

16.12 Awgrymwyd y gellid ychwanegu manylion aelodau'r Pwyllgor Safonau Proffesiynol i'r wybodaeth ar wefan y Cyngor. Roedd yr aelodau'n cytuno i gyhoeddi enwau aelodau paneli a chadarnhawyd mabwysiadu ymagwedd gyffredin at gyhoeddi gwybodaeth.

17. Ymgynghoriad y Cynulliad ar 'Adolygiad o fesurau perfformiad Ysgolion Uwchradd'' (CYNGACC 26/07)

17.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*), ac amlygodd yn fras yr amserlen a'r broses arfaethedig ar gyfer ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar '*Adolygiad o fesurau perfformiad Ysgolion Uwchradd'.*

17.2 Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd y cyfnod ymgynghori yn adlewyrchu pwysigrwydd y mater dan sylw. Mynegwyd pryder hefyd bod yr ymgynghoriad yn digwydd yn ystod gwyliau ysgol.

17.3 Er bod y newid tuag at ddangosyddion mwy ystyrlon yn cael ei groesawu'n gyffredinol, roedd rhai aelodau o'r farn ei bod yn anodd weithiau mesur targedau pwysig fel cyflawni targedau Llywodraeth y Cynulliad ac yn amhosibl mesur gwaith hanfodol arall ym maes cynhwysiant; cyflwyno'r agenda 14-19; cynyddu cydweithredu rhwng sefydliadau a gwaith gyda phlant heriol. Yn ogystal, nododd un aelod fod y polisi o osod targedau ar adegau'n gallu bod yn wrthgynhyrchiol.

17.4 Roedd yr aelodau'n fodlon cytuno ar y broses a'r amserlen i'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai'r ymateb drafft yn cael ei gylchredeg i aelodau er mwyn iddynt gynnig sylwadau pellach erbyn 18fed Mai 2007 a byddai'r ymateb terfynol yn cael ei gyflwyno ar 29ain Mai 2007.

18. Ystadegau Blynyddol, 2007 (CYNGACC 27/07)

18.1 Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) ar chweched Crynodeb Ystadegau Blynyddol y Cyngor. Roedd copi o'r crynodeb wedi'i ddarparu i'r aelodau cyn y cyfarfod ac roedd ar gael i arsylwyr yn yr oriel gyhoeddus.

18.2 Atgoffwyd yr aelodau mai prif ddiben swyddogaeth gofrestru'r Cyngor oedd bodloni gofynion rheoleiddiol. Fodd bynnag, isgynnyrch hyn a groesawyd oedd yr wybodaeth ystadegol mewn perthynas â'r proffesiwn addysgu yng Nghymru a oedd yn unigryw i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Roedd hyn yn hanfodol wrth lunio polisi a chefnogi proses y Cyngor o wneud penderfyniadau. Roedd yr ystadegau'n cynnwys pob athro/athrawes, ANG a phennaeth ac yn darparu data newydd ar allu yn y Gymraeg, ethnigrwydd, anableddau, pynciau a addysgir a chymwysterau.

18.3 Mae nifer yr athrawon cofrestredig yng Nghymru'n parhau i godi, gyda chynnydd o 200-400 bob blwyddyn a oedd yn adlewyrchu lefel cydymffurfiaeth gynyddol â deddfwriaeth gofrestru. Rhoddodd grynodeb bod 73.8% o'r athrawon yng Nghymru yn fenywaidd, gyda 36.3% yn addysgu yn y sector cynradd a 35.1% yn y sector uwchradd. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys: y 'cromlin profiad' a ddangosodd fod 34% o athrawon yn meddu ar bum mlynedd ar hugain neu fwy o brofiad wrth eu gwaith o'u cymharu â 23.2% a oedd yn meddu ar hyd at bum mlynedd o brofiad; roedd 30% o athrawon cofrestredig, 40% o benaethiaid uwchradd a 46% o benaethiaid cynradd yn siarad Cymraeg o'u cymharu â'r ganran genedlaethol o 21% ac yn olaf, roedd canran sylweddol o athrawon newydd gymhwyso (ANG) yn 25 oed ac yn hŷn. Roedd y gofrestr yn dangos gostyngiad yn nifer y penaethiaid ond cynnydd yn nifer y rheiny oedd yn meddu ar y CPCP. Roedd data arall yn canolbwyntio ar ANG ac yn cadarnhau bod cyflenwad athrawon Mathemateg a Saesneg yn gadarn o hyd gyda nifer bach yn cymhwyso mewn gwyddoniaeth ac ieithoedd tramor modern.

18.4 Croesawodd yr aelodau y cyflwyniad a gwaith swyddogion ar y crynodeb. Gofynnwyd nifer o gwestiynau a oedd yn nodi meysydd o ddiddordeb penodol i unigolion. Nodwyd y rhain a byddai gwybodaeth ar gael i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod.

18.5 Yn fwy cyffredinol, gofynnodd yr aelodau am y ffordd y gallai'r cwestiwn ynghylch 'hunaniaeth Gymreig' fod wedi'i lunio i annog ymateb uchel. Rhoddodd Hayden Llewelyn sicrwydd fod y diffiniad a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i ddefnyddio fel oedd yn briodol. Yn ogystal, holodd yr aelodau am yr ymateb isel iawn mewn perthynas ag anableddau unigolion. Er bod canllawiau'n cynnwys anableddau fel dyslecsia, tybiwyd nad oedd llawer o unigolion yn ystyried eu hunain yn anabl ac felly wedi ymateb yn unol â hynny.

19. Unrhyw fater arall

19.1 Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod ffurflenni diwygiedig ar gyfer teithio a chynhaliaeth a gwasanaeth cyflenwi wedi'u darparu i aelodau ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, 2007-08 a nodwyd y dylid eu defnyddio'n syth.

19.2 Gwahoddodd y Cadeirydd adborth ynghylch dechrau cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol am 9.30am lle roedd hynny'n bosibl. Roedd yr aelodau'n fodlon ar y trefniant hwn at y dyfodol.

19.3 Nid oedd unrhyw fusnes arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Mawrth 10fed Gorffennaf 2007
yn
Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru (NEWI), Wrecsam